

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 1 MEDI 2021

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin Jones.
Y Cynghorwyr:	Richard Davies, Elfed Wyn ap Elwyn, Enid Roberts, Dewi Williams.
Hefyd yn bresennol:	Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Karen Hughes (Swyddog Ariannol).
Ymddiheuriadau:	A. Huw Jones, Keith O'Brien, Annest Smith, Dewi Williams, Idwal Williams.

Gan nad oes Clerc ar hyn o bryd cymerwyd y cofnodion gan y Swyddog Ariannol.

2180 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021 gan nodi y cywiriadau canlynol:

Yr oedd y Cynghorydd Enid Roberts yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7 Gorffennaf.

1774(4) – Strwythr adeilad y man gwyllo sydd wedi dirywio, nid Gardd Sylvia Crowe.

2181 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) – Garej Lôn – Mae y Cynghorydd Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad a PCSO Delyth Williams a cytunodd ail-gysylltu gyda hi gan bod ceir heb dreth ac MOT yn cael eu cadw ar y ffordd ynghyd a cheir a HOS arnynt.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo - Adroddwyd bod neges wedi ei dderbyn o Safle Magnox yn dweud bod Magnox wedi bod mewn cysylltiad a Phensaer Lleol ac yn aros am bris ganddo. Yn dilyn derbyn y pris bydd y cwmni yn edrych i mewn i ffynnonhellau arian ar gyfer gwneud y gwaith ond byddent yn cadw mewn cysylltiad a'r Cyngor. Cytunwyd y dylai y Cadeirydd basio diolch a gwerthfawrogiad y Cyngor a'r pentref i Magnox.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi ymestyn gwahoddiad i Tim Barnes fynychu cyfarfod o'r Cyngor ond nid oes ateb wedi ei dderbyn.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod Adrian Roberts o gwmni Severn Wye yn trefnu i wahodd trigolion y pentref i ddigwyddiad 'Stiwio Stori' yn y Neuadd. Mae grantiau ar gael ond mae yn rhaid i'r cynllun neu prosiect fod o fudd i'r pentref cyfan.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod wedi gofyn am fwy o arwyddion arafu ac hefyd 'rumble strips' ond nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yma. Mae hefyd wedi awgrymu y bod yn bosib gosod twnel tanffordd. Mae wedi ysgrifennu i Liz Saville Roberts a'r Heddlu ac ychwanegodd y Cadeirydd ei fod ef wedi cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor. Cytunwyd i'r Cynghorydd Elfed Roberts alw cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cadarnhad gan berchenog y tir ei fod yn foddol gwerthu y rhan sydd wedi ei nodi yn Opsiwn 3. Cytunodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i fesur y llain tir a cytunwyd ymhellach gofyn caniatad y perchennog i fesur dyfnder y tir er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer claddedigaethau. Cadarnhawyd bod Mr Marcus Smith am drin y gordyfiant a'r chwyn ddiwedd yr wythnos.

2085 (3) Llys Ednowain – Adroddwyd nad yw y Cyngor wedi derbyn cyfrifon Traws-Newid ers tair blynedd er bod sawl cais wedi ei wneud ac o ganlyniad nid ydynt yn cydymffurfio a’r gytundeb, o ganlyniad cytunwyd nad yw y Cyngor am wneud unrhyw ad-daliad iddynt hyd nes y bydd y cyfrifon wedi eu derbyn. Cytunwyd y dylid cysylltu gyda Trysorydd Traws-Newid a gofyn am gopi o gyfrifon y 3 blynedd erbyn diwedd Medi.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol –Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi cysylltu ag Iwan ap Trefor ond nid oes ateb wedi ei dderbyn.

2092 (6) Llysiâu’r Dial (Japanese Knotweed) – Tyfiant wrth Afon Prysor (gyferbyn a Maesgraeon) , Islaw’r Coed (OS702373) a Llys Ednowain. Cytunwyd cysylltu gyda’r Dref Werdd. Cytunwyd ymhellach gofyn beth yw eu polisi ynglyn ag eiddo preifat/heb berchennog gan bod tyfiant tu cefn i Penyarreg a chefn Y Fron.

2099 (6) Marciau Gwyn – Cadarnhawyd bod gwaith wedi ei wneud ond nid oes ymateb pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Iwan ap Trefor parthed y maes parcio a Bryn Glas.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Gorfodi plentyn fynd i dalgylch ysgol wahanol ar ol gadael Ysgol Gynradd. Y Cynghorydd Anest Smith am edrych dros e-bost diwethaf Cyngor Gwynedd.

2113 (1) Golau Stryd wrth y Toiledau Cyhoeddus – Y Cynghorydd Keith O’Brien wedi paratoi llythyr sydd wedi ei anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd. Adroddwyd nad oes ateb wedi ei dderbyn.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pant Glas – Y Cynghorydd Anest Smith yn paratoi sylwadau a lluniau.

2126 (3) Biniâu Halen – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod wedi trafod y mater ymhellach gyda Chyngor Gwynedd. Mae’r syniad o fabwysiadu yr un system a Swydd Efrog sydd hefyd yn cael ei weithredu yn Llandderfel a Cherrigydrudion ble mae ffermwyr a chontractwyr lleol yn clirio y ffyrdd bach sydd yn golygu bod Cyngor Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth i’r ffyrdd mwy wedi ei grybwyll. Cytunodd y Cynghorydd Elfed Roberts ofyn am fanylion pellach.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor (rhwng 1 a 6) – Adroddwyd bod car wedi ei barcio ar y safle yn ystod yr wythnos flaenorol, felly, cytunwyd parhau i fonitro y sefyllfa. Adroddwyd bod y gwair yn arfer cael ei dorri gan gontractwyr Cyngor Gwynedd/Adra yn y gorffennol ond nid oedd wedi ei dorri eleni. Cytunwyd ysgrifennu i Adra i wneud ymholiadau.

2161 (1) – Ffens gyferbyn cae chwarae yr ysgol/cae Dolwen – wedi dod yn rhydd ar y cylchau. Y Cynghorydd Elfed Roberts yn aros am adroddiad pellach gan Gyngor Gwynedd.

2161 (2) – Cae o dan Bryn y Gofeb a’r wal derfyn – Cytunodd y Cynghorydd Dewi Williams i gael golwg ar y safle.

2161 (4) – Plinth Cof Golofn Hedd Wyn – Cytunwyd aros i Robert Williams wneud y gwaith.

2161 (7) Ymgymwrwr heb dalu anfoneb am gladdedigaeth ym Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod llythyr wedi ei anfon i’r ymgymwrwr yn dweud y bydd y Cyngor yn rhoi y mater yn nwylo y Llys Sirol. Cytunodd y Cynghorydd Elfed Roberts i gysylltu gyda’r ymgymwrwr.

2161 (8) – Llwybr o Stesion i Blaen Cwm – Mae y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn wedi cysylltu gyda David Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eyri ac wedi cysylltu ymhellach gyda Peter Rutherford. Nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yma. Maen’t wedi nodi bod Hen Bont Bwlch Gwyn angen ei thrwsio neu ei thynnu i lawr.

2161 (9) – Pergola Gardd Salem – Mae rhestr waith wedi ei anfon i Beatrice Beale o Talsarnau gyda cais iddi ymateb gyda pris erbyn cyfarfod mis Hydref.

2161 (10) – Hel Sbwriel – Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu gyda’r Dref Werdd i drefnu ymgyrch codi sbwriel.

2161 (11) – Peintio meinciau Bryn y Gofeb a gwneud gwaith atgyweirio – Mae Alan Thomas wedi cadarnhau ei fod am ddechrau ar y gwaith cyn gynted a phosib.

2165 (2) Defaid yn crwydro - Adroddodd y Cynghorydd Dewi Williams ei fod wedi derbyn cadarnhad bod perchnogion yn gyfrifol am eu terfynau, felly os yw defaid yn crwydro dros fylchau mewn waliau neu ffens ar eiddo preifat, nid cyfrifoldeb y ffermwr ydi hynny, ond os ydi'r bylchau yn ei waliau neu ffens ar ei dir ef, yna y ffermwr sydd yn gyfrifol.

2170 (1) Scottish Power – torri gwrych Mynwent Pencefn – aros i Scottish Power ddechrau y gwaith.

2171 (1) Swydd y Clerc – Mae unigolyn wedi dangos diddordeb yn y swydd a bydd yn mynychu cyfarfod mis Hydref.

2176 (1) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod llythyr wedi ei ddrafftio a bydd yn cael ei anfon i Pritchard & Griffiths gyda chopi i Mr Guto Tomos a'r Parchedig Anita Ephraim. Cytunwyd caniatâu i'r Swyddog Ariannol brynnu 2 hysbysfwrdd newydd ar gyfer y rheolau.

2177(1) – Dewi Lake – Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i Dewi Lake ar ei ymddeoliad fel Pennaeth Ysgol y Moelwyn ar ddiwedd y tymor.

2177(2) - Gwasanaeth bysus – Gan bod y bws ysgol yn mynd trwy Penyarreg, Pantycelyn a Frongaled 'roedd y Cynghorydd Elfed Roberts wedi cysylltu a'r Adran Draffig a'r cwmnïau bysus. Yr oedd Lloyd's Coaches wedi cadarnhau eu bod yn hollol fodlon i'r bysus ddilyn y ffordd ond bod yn rhaid iddynt dderbyn sicrhad bod y ffordd yn glir bob amser. Cytunwyd nad yw hyn yn bosib.

2177(4) – Parc Bryn Glas – Cadarnhawyd nad yw yn bosib i'r Dref Werdd glirio y safle ond cytunodd y Cynghorwyr Hefin Jones ac Elfed Wyn ap Elwyn gael golwg pellach ar y safle. Cytunodd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn dorri y 2 goeden Fedwen sydd ar y safle.

2177(5) – Afon Prysor – graean wedi hel – Adroddwyd bod graean yn casglu o dan y bont ac ar lan yr afon. Cytunodd y Cynghorydd Elfed Roberts gysylltu gyda Tim Jones o Cyfoeth Naturiol Cymru.

2177(6) – Pont Prysor – coeden yn tyfu o'r wal – Cytunodd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i dorri y goeden.

2177(7) – CCTV y Ganolfan Iechyd – Adroddwyd bod system newydd wedi ei osod yn ddiweddar gan Kevin Jones ar gost o £600.

2182 – GOHEBIAETH

- (1) Cyngor Gwynedd – ebost parthed uwchraddio lloches bws Maesgwyndy rhwng mis Medi a mis Tachwedd. Cytunwyd nad oes gan y Cyngor ddefnydd ar gyfer y lloches bresennol. Cysylltu a Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt gael gwared o'r lloches fel maen't yn cynnig.
- (2) Cyngor Cymuned Llandygai - Mae aelodau Cyngor Cymuned Llandygai yn awyddus iawn i drefnu cyfarfod gyda Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drafod eu diffyg ymateb Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Nefyn a Cyngor Llanbedrog wedi datgan eu cefnogaeth. Cytunwyd anfon ebost yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Trawsfynydd yn cael yr un broblem.
- (3) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dathlu 70 mlynedd ers dynodi Eryri yn Barc Cenedlaethol ac yn cynnig 'Pecyn Plannu Coed' i bob Cyngor Cymuned a Chyngor Thref yn Eryri. Cytunwyd i beidio a derbyn y cynnig o 70 o goed.
- (4) Y Dref Werdd yn cyflwyno cais i gronfa Pawb a'i Le ar gyfer prosiect Hwb Cymunedol. Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth.

- (5) Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad – Trwydded Eiddo Newydd ar gyfer Parc Gwyliau Trawsfynydd Bronaber . Bu i'r Cyngorydd Enid Roberts ddatgan diddordeb ond nid oedd yn fyddiant sydd yn rhagfarnu. Cytunwyd nad oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
- (6) Un Llais Cymru – Agenda a papurau cefndir ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd 8 Medi – y Cadeirydd neu y Cyngorydd Elfed Wyn ap Elwyn am fynychu.

Gohebiaeth er gwybodaeth:

- Un Llais Cymru - Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - Gweithio mewn Partneriaeth i Sicrhau Llesiant ein Cymunedau i'r Dyfodol - 22ain Medi 2021
- Sara Ashton Thomas Grwp Cynefin – cadarnhau y bydd yr Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Lleol yn cael ei anfon ymlaen unwaith y bydd wedi ei gyfieithu
- Un Llais Cymru – Nodyn briffio Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn benodol mewn perthynas ag adran 47 sy'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad.
- Llywodraeth Cymru - Ymatebion Cyngorau Tref a Chymuned i'r ymgynghoriad ar Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eyri – Arolwg - Ein defnydd o'r iaith Gymraeg (ymateb ar lein)
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eyri - Cronfa Cymunedol Eryri – ceisiadau erbyn 4ydd Hydref 2021.
- Un Llais Cymru - Hyfforddiant mis Medi (o bell)
- Un Llais Cymru - Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo - sylwadau erbyn 17 Tachwedd 2021.
- Un Llais Cymru - Ymateb i adolygiad yr IRPW 'or Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref

2183 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

2184 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Fandaliaeth Cofeb Hedd Wyn – Adroddwyd bod paent coch wedi ei daflu ar y gofeb yn ystod oriau man y bore dydd Mercher 25 Awst. Mae CCTV y Ganolfan Iechyd wedi codi lluniau a'r Heddlu wedi cael gwybod am y digwyddiad. Cytunwyd aros am adroddiad pellach gan yr Heddlu.
- (2) Safle We y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi cysylltu gyda Delwedd parthed safle we newydd ar gyfer y Cyngor. Bydd y pris am ddylunio a gosod y safle yn £1,500, gyda £300 y flwyddyn am ei chadw yn gyfredol a £200 am yr 'hosting'. Cytunwyd cysylltu yn ol gyda Delwedd a gofyn os byddai yn bosib creu linc rhwng y safle we newydd a safle Trawsfynydd bresennol.
- (3) Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu gyda'r cyn Glerc a gofyn iddi sicrhau bod y Cyngor yn cael y cofnodion, gohebiaeth ac unrhyw waith papur yn ymwneud ar Cyngor ganddi er mwyn sicrhau fod popeth mewn trefn.
- (4) Mae pryder wedi ei ddatgan parthed Rhiwgoch gan nad oes unrhyw wybodaeth pendant am y sefyllfa bresennol nac unrhyw ddatblygiadau. Cytunwyd anfon llythyr i CADW gyda chopi i Swyddog Adeiladau Cofrestredig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- (5) Mae canllaw stepiau y llwybr cyhoeddus o gyfeiriad Bryn Madog i'r ffordd osgoi yn rhydd. Cytunwyd cysylltu a Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.

- (6) Mae gordyfiant ar y llwybr o amgylch y Llyn. Cytunwyd cysylltu a Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.
- (7) Yn dilyn damwain yn ddiweddar mae y ffens a postyn cae chwarae Bro Prysor wedi ei ddifrodi. Cytunwyd cysylltu a chwmni Adra.

2185 – MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Datblygu Tai Cymunedol - y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elfed.
- (2) Cynllun Mentro - y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elfed.
- (3) Torch Sul y Cofio - Swyddog Ariannol.
- (4) Guto Ffowc - y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elfed.

2186 – CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

- (1) Neuadd Gyhoeddus - Y Cadeirydd a'r Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar.